Llawlyfr Y Feithrin

Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Croeso

Croeso cynnes i Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Rydym yn hyderus bydd cyfnod eich plentyn, a chi, gyda ni yn un hapus, croesawgar a hwylus. Gobeithiwn bydd y llawlyfr hwn o fudd i chi ac yn ateb llawer o'ch cwestiynau.

Diolch,

Staff y Feithrin

STAFF Y FEITHRIN

ATHRAWON Y FEITHRIN: MRS REES & MRS WILLIAMS
CYNORTHWY-YDD: MISS EVANS

Gwybodaeth Cyswllt
Ysgol Gymraeg Pwll Coch
Rhodfa Lawrenny
Lecwydd
Caerdydd
CF11 8BR
Rhif ffôn: 02920 373453
E-bost: ysgolpwllcoch@cardiff.gov.uk
Cyfrif Trydar: @YsgolPwllCoch
Gwefan: www.ygpc.cymru

Trefniadau dechrau yn y Feithrin

Mae dechrau yn y dosbarth Meithrin yn gam mawr i lawer o blant ac weithiau yn un anodd. Ceisiwn ei wneud mor hawdd â phosib i'r plant. Cyn i'r plant ddechrau mae yna gyfarfod i rieni. Croeso i'r plant ddod hefyd er mwyn ymweld â'r dosbarth, a chwrdd â'r staff a fydd yn gofalu amdanynt. Byddant yn dechrau ar ddiwrnodau gwahanol ym mis Medi er mwyn sicrhau bod y grwpiau yn ddigon bach i'r staff medru rhoi digonedd o sylw i'r plant a'u helpu i ymgartrefu. Deallwn ei fod hi'n anodd iawn i chi fel rhieni i adael eich plant os nad ydynt yn hapus ond mae'r plant yn setlo llawer ynghynt wedi i chi adael, ac mae hefyd angen i'r plant arfer bod yn y dosbarth hebddoch chi. Mi wnaiff yr ysgol gysylltu â chi os nad ydynt yn setlo ac mae'n bosib i chi ffonio'r ysgol i ofyn sut maent yn gwneud os ydych yn poeni. Mae'r staff yn gwneud pob dim posib i setlo'r plant oherwydd nid ydynt hwy chwaith yn hoffi gweld y plant yn anhapus. Edrychwn ymlaen at sefydlu partneriaeth agos gyda chi fel teulu.

Oriau'r Feithrin

Bore 8:50 – 11:30

Prynhawn 12:45 – 3:10

Mae'n bwysig eich bod yn dod â, ac yn casglu eich plentyn o'r Feithrin ar amser, a rhoi gwybod i ni os bydd rhywun gwahanol yn casglu eich plentyn o'r Feithrin. Dewch â'ch plentyn i ddrws allanol y dosbarth, a gallwch ei casglu yma hefyd.

Y Dosbarth

Cynlluniwyd y Feithrin i fod yn ystafell agored, olau gyda drws sydd ar agor i'r ardal allanol trwy'r dydd. Mae profiadau cyntaf eich plentyn yn yr ysgol yn werthfawr i ni, felly cynlluniwyd y dosbarth i edrych fel cartref gyda chadeiriau esmwyth, goleuadau cartrefol ac adnoddau o'r cartref, er mwyn creu awyrgylch groesawgar a chartrefol.

Y tu allan mae cegin fwd, twb tywod, twb ddwr, siglen, coed i ddringo, beiciau a sgwteri di-ri, heb anghofio am sialc a swigod! Pwy sydd ddim yn hoffi swigod!

Rydym yn lwcus iawn o'n defnydd o'r ystafell sensori sydd ganddom yn yr ysgol hefyd.



Paratoi eich Plentyn

BYDD O HELP I'CH PLENTYN OS YW'N GALLU:

- Mynd i’r tŷ bach yn annibynnol, a golchi a sychu dwylo.
- Gofalu am ei (ph)bethau, er enghraifft, adnabod ei (ch)got a’i roi ar fachyn.
- Gwisgo ei hunain, er enghraifft, cot, sanau ac esgidiau ar ôl Ymarfer Corff.
- Adnabod eu henwau, fel y medrant adnabod eu bachyn cot.
- Tacluso a chymryd cyfrifoldeb am eu teganau.
- Bod yn gwrtais, cyfeillgar a chymdeithasol– bydd hyn yn help iddynt wneud ffrindiau a setlo.

Dewch a dillad sbar os gwelwch yn dda!

Dillad!

Gwisg Ysgol

Gellir archebu gwisg ysgol yn YC Sports yn Nhreganna, ond nid yw'n orfodol. Rydym yn argymell bod y plant yn gwisgo trowsus tracwisg neu rywbeth tebyg gyda siwmper ysgol.

ENW AR BOPETH!!

Rydym fel ysgol yn ceisio rhoi addysg ddiddorol ac ymarferol i'r plant gan gwneud y defnydd gorau posib o'n amgylchfyd wrth ddysgu'r plant.

Mae plant yn mwynhau, yn cofio ac yn darganfod dros eu hunain pan fod y gwaith yn ymarferol. Felly byddem yn ddiolchgar petaech yn gwisgo dillad ymarferol am y plant fel nad oes ots os ydynt yn mynd yn frwnt.

Gwisgwch eich plant mewn dillad addas i'r tywydd. Y dillad nid y tywydd sy'n anaddas i fynd allan! Byddwn yn ceisio mynd allan ym mhob tywydd – glaw, gwynt, haul, eira.

Croeso i'r plant wisgo eu welis neu het haul i'r ysgol. Awgrymwn bod eich plentyn yn gwisgo trowsus cyfforddus ac esgidiai 'felcro'.

Er y gwisg ysgol, rydyn ni dal yn hoffi gwisg ffansi!

Diod a byrbryd

Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu byrbryd iachus i'ch plentyn wedi ei labelu mewn potyn bach. Os ydych yn darparu grawnwin, cofiwch eu torri yn hanner. Byddwn yn darparu potel fach o laeth i bob plentyn am ddim. Os oes gan eich plentyn alergedd i laeth, rhown gwpan o ddwr yn ei le, neu mae croeso i chi ddarparu diod.

Mae hi’n bwysig eich bod yn dweud wrthym os ydy’ch plentyn ag alergedd o unrhyw fath

Datblygu ein Sgiliau

Salwch ac Absenoldebau

Os yw eich plentyn yn absennol a wnewch chi ffonio neu e-bostio'r ysgol i roi gwybod cyn gynted â phosib. Er ein bod yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da, mae'n well i gadw eich plentyn adref os yw'n sâl, gan gofio rhaid i blant fod yn iach am 48 awr cyn dychwelyd i'r ysgol ar-ol chwydu neu dolur rhydd.

ASTHMA A PENIAU EPIPEN

Gall blant sy'n dioddef o Asthma ddefnyddio eu pwmp yn yr ysgol pan fo'r angen yn codi, dim ond i chi lenwi'r ffurflen briodol. Gofynnwch i'ch meddyg am bwmp ychwanegol neu peniau epi ar gyfer yr ysgol. Cofiwch eu rhoi mewn bocs gyda enw eich plentyn arno yn glir.

MEDDYGINIAETH

Byddem yn ddiolchgar petaech yn ceisio amseru dosau meddyginiaeth o gwmpas oriau'r ysgol. Os oes angen rhoi meddyginiaeth byrdymor i'r plant yn ystod oriau ysgol bydd angen i chi lanw ffurflen caniatad a sicrhau bod enw eich plentyn ar y meddyginiaeth.

Cyfathrebu

DOJO

Rydym yn defnyddio app o'r enwClass Dojo i ddangos gwaith y plant yn wythnosol ac i ddanfon unrhyw negeseuon pwysig, ynghyd a'r Cylchlythr wythnosol gan y Pennaeth. Gallwch hefyd ddanfon negeseuon i'r athrawon yn ystod y dydd. Byddwch yn derbyn e-bost er mwyn derbyn y ddolen ar ei gyfer.

Edrychwn ymlaen ich cwrdd a gwnend atgofion melys llawn hwyl gyda'ch plentyn.